Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Jacqui Weatherburn
Pennaeth
Coleg Ceredigion
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BP

Awst 2014

Annwyl Ms Weatherburn

**Adroddiad Estyn ar Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer Coleg Ceredigion**

Yn dilyn ymweliad yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad â'ch sefydliad ar 6 i 8 Mai 2014, mae'r llythyr hwn yn ffurfio adroddiad blynyddol ar sail canlyniadau'r ymweliad hwnnw. Caiff y llythyr ei gyhoeddi ar wefan Estyn.

Arfarnodd Gill Sims AEM a Liam Kealy AEM berfformiad presennol y sefydliad ac adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn deillio o arolygiadau blaenorol.

Cynhaliodd yr arolygwyr drafodaethau â'r pennaeth ac uwch arweinwyr, tiwtoriaid, dysgwyr ac aelodau o'r corff llywodraethol. Gwnaethant graffu ar ddogfennaeth, gan gynnwys tystiolaeth ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o argymhellion yr arolygiad blaenorol. Hefyd, gwnaethant ystyried ansawdd addysgu a dysgu drwy deithiau dysgu a chraffu ar broses arsylwi'r darparwr.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd yr arolygwyr cyswllt ar eu canfyddiadau i bennaeth y sefydliad ac aelodau eraill o'r uwch dîm arweinyddiaeth.

**Canlyniad yr ymweliad gan yr arolygwyr cyswllt**

Ers arolygiad Coleg Ceredigion ym mis Chwefror 2013, mae'r coleg wedi gweithio i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan y tîm arolygu. Er ei bod yn rhy gynnar i weld gwelliant sylweddol mewn deilliannau i ddysgwyr, mae effaith y gwaith hwn i'w gweld ar draws y coleg.

## 1 Deilliannau a safonau

At ei gilydd, mae’r data ar gyfer pob cwrs ar draws y tri mesur, sef cyfraddau cwblhad, cyrhaeddiad a llwyddo cyffredinol, wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Ar gyfer pob cwrs, mae’r coleg yn yr hanner uchaf o’r holl golegau yng Nghymru o hyd.

Mae wyth deg dau y cant o’r ymrestriadau yn y coleg ar gyrsiau hir. Mae’r coleg wedi cyflawni tuedd ar i fyny ar y cyrsiau hir hyn, ar gyfer pob dangosydd data, dros y pedair blynedd diwethaf. Yn ogystal, mae data 2012-2013 yn dangos bod cyfradd llwyddo’r coleg wedi aros yn y chwarter uchaf o’r holl golegau yng Nghymru am y ddwy flynedd diwethaf. Er bod tua hanner y meysydd sector pwnc yn dangos gwelliant mewn cwblhau cyrsiau’n llwyddiannus rhwng 2011-2012 a 2012-2013, mae gormod o amrywiad rhwng y meysydd sector pwnc gwahanol.

Cwblhaodd bron pob dysgwr ar gyrsiau byr eu rhaglenni dysgu yn llwyddiannus. Yn 2012-2013, y coleg oedd yr uchaf yn y sector ar gyfer cyfraddau llwyddo cyrsiau byr.

## 2 Medrau Hanfodol

Mae’r coleg wedi cynnal adolygiad trylwyr o’i bolisi a’i gynlluniau marcio ac effaith y rhain ar ddatblygu medrau dysgwyr. O ganlyniad, mae’r coleg wedi blaenoriaethu datblygiad staff i wella medrau’r athrawon eu hunain i’r helpu i ddeall sut y gellir datblygu llythrennedd a rhifedd i ddysgwyr sy’n gweithio ar lefelau gwahanol. Mae’r coleg yn cynnal asesiad cychwynnol o fedrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn ystod y cyfweliadau cyn-cwrs. O ganlyniad i’r deilliannau, mae’r coleg yn cynnal cyrsiau haf i ddysgwyr wella eu medrau. Mae pob un o’r dysgwyr sydd wedi cael cynnig lle ar y cyrsiau hyn wedi derbyn y cynnig. Fodd bynnag, mae cynlluniau i wella’r lleoliad a chyflawni targedau llythrennedd a rhifedd unigol i ddysgwyr yn cael eu datblygu o hyd.

## 3 Addysgu ac asesu

Mae gan y coleg ystod o fentrau defnyddiol ar waith i wella addysgu ac asesu. Yn ddiweddar, mae wedi ailstrwythuro cyfrifoldebau staffio i greu swyddi rheolwyr cwricwlwm a chynyddu craffu ar ansawdd addysgu ac asesu. Gwna’r coleg ddefnydd da o glystyrau cymheiriaid, yn cynnwys athrawon o feysydd dysgu gwahanol, i rannu a hyrwyddo arfer dda mewn addysgu ac asesu. O ganlyniad, mae athrawon yn datblygu ffyrdd arloesol o addysgu, er enghraifft gan ddefnyddio codau ymateb cyflym (QR) i alluogi dysgwyr i weld fideos ‘sut’ mewn adeiladu ac astudiaethau cerbydau modur. Hefyd, mae’r coleg yn dechrau manteisio ar gyfleoedd i ennill arbenigedd o ganlyniad i uno â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i gyfoethogi datblygiad proffesiynol parhaus staff addysgu.

## 4 Cwricwlwm

Mae'r coleg yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn dda i gynllunio'r cwricwlwm a sicrhau bod llwybrau dysgu'n cynnig llwybrau da i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae ganddo gysylltiadau da â chyflogwyr i sefydlu agweddau yn gysylltiedig â gwaith a chyfleoedd profiad gwaith i ddysgwyr. Mae gan lawer o athrawon a staff cymorth gysylltiadau personol da â diwydiant a busnesau lleol, a gallant gyfoethogi eu haddysgu drwy ddefnyddio siaradwyr ymweliadol neu drefnu gweithgareddau dysgu ychwanegol fel gweithdai. Mae uno â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi creu cyfleoedd cwricwlaidd ychwanegol hefyd, wrth i'r coleg ddefnyddio ystod ehangach o gysylltiadau a rhwydweithiau yn y teulu. Mae'r coleg yn gweithio'n effeithiol i ddarparu ystod ddefnyddiol o raglenni hyfforddiant i ddiwydiant a busnesau lleol.

## 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth, uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn effeithiol o ran gosod cyfeiriad strategol y coleg a chydweithio â staff i gytuno ar gynlluniau gweithredol a chynlluniau gwella. Mae hyn yn ennyn cefnogaeth staff ac yn eu helpu i gyfrannu at gyfeiriad y coleg a gwella profiadau'r dysgwyr. Mae'r tîm arweinyddiaeth wedi cydweithio i uno'r coleg â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ac i alluogi staff i weld manteision cydweithio oddi mewn i grŵp teulu ehangach sy'n cynnwys partneriaid addysg bellach ac addysg uwch.

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn gweithio'n dda i roi datganiad o genhadaeth y coleg ar waith, sef Cyflawni Potensial, Newid Bywydau. O ganlyniad, mae gan staff ymrwymiad cryf i ddysgwyr unigol ac mae llawer o ddysgwyr yn rhagori ar eu targedau rhagfynegol. Er enghraifft: mae pob dysgwyr yn gwella ei fedrau/medrau dwyieithog; mae dysgwyr a oedd wedi eu haddysgu gartref gynt yn dysgu medrau bywyd newydd ac yn gallu rheoli eu dysgu'n well; ac mae dysgwyr nad oeddent erioed wedi ystyried eu hunain yn addas i fynd i'r brifysgol yn symud ymlaen i raglenni addysg uwch.

## 6 Arweinyddiaeth a rheolaeth (sicrhau ansawdd)

Mae gweithdrefnau a phrosesau sicrhau ansawdd y coleg yn helpu rheolwyr yn effeithiol i ddeall y cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar draws y coleg a rhoi cynlluniau cadarn ar waith ar gyfer gwella. Mae'r pwyllgor addysgu a dysgu ansawdd y cwricwlwm yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun datblygu ansawdd yn drylwyr. Mae'r coleg yn nodi tanberfformiad yn gywir ac mae ganddo weithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau gwelliannau ar lefel cyrsiau.

## 7 Crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad Chwefror 2013

Gwnaed yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu diwethaf ym mis Chwefror 2013. Mae'n rhy gynnar i ddisgwyl cynnydd sylweddol yn erbyn yr argymhellion. Fodd

bynnag, at ei gilydd, mae effaith y cynnydd y mae'r coleg yn ei wneud yn erbyn yr argymhellion i'w weld ar draws ei ddarpariaeth.

Mae'r coleg wedi cyflwyno proses asesu perfformiad fwy cadarn ar gyfer staff sy'n rhoi mwy o ystyriaeth i berfformiad ar draws blwyddyn academaidd. Bu ffocws cynyddol ar raglenni datblygu staff, yn enwedig ar gyfer medrau, cynyddu rhediad a her mewn gwersi, a gosod targedau. Mae'r coleg wedi datblygu strategaeth fasnachol yn unol â strategaeth Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

## 8 Arall

Mae'r coleg yn cydweithio'n dda ag ysgolion yn y bartneriaeth 14-19. Mae hyn yn galluogi disgyblion o ysgolion yn ne'r sir, yn bennaf, i ymgymryd â rhan o'u dysgu ar gyrsiau galwedigaeth yn y coleg. Dros y tair blynedd diwethaf, mae tua 20% o'r myfyrwyr hyn wedi symud ymlaen i gyrsiau coleg amser llawn, yn enwedig dewisiadau galwedigaethol fel rhai mewn adeiladu ac astudiaethau cerbydau modur.

Mae'r coleg yn paratoi dysgwyr i fyw a gweithio mewn cymuned ddwyieithog yn effeithiol. Gall dysgwyr astudio yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, fel y bo'n briodol. Mae dysgwyr yn cael budd o ystod eang o weithgareddau cyfoethogi i'w helpu i wella eu medrau Cymraeg a'u dealltwriaeth o fyw mewn gwlad ddwyieithog. Mae cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg wedi ei ddatblygu'n dda ac yn effeithiol. Mae dysgwyr yn y coleg yn dangos balchder yn eu cyflawniadau yn y Gymraeg ac yn magu hyder a rhuglder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r coleg yn defnyddio ystod addas o wybodaeth gan ddysgwyr i wella eu profiad dysgu ac i lywio cynllunio a datblygu darpariaeth.

Cwblhaodd tri chant naw deg a saith o ddysgwyr amser llawn yng Ngholeg Ceredigion arolwg llais y dysgwr yn 2013. Mae hyn yn cynrychioli tua 73% o gyfanswm y dysgwyr amser llawn. Mae 37% o ymatebwyr o'r farn bod y coleg yn dda iawn, yn gyffredinol. Mae hyn yn unol â chyfartaledd y sector. Mae 40% pellach o'r farn bod y coleg yn dda. Mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd y sector, sef 43%. Fodd bynnag, dywedodd 41% o ymatebwyr amser llawn fod eu cwrs yn well na'r disgwyl, ac mae hyn bum pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y sector. Mae'r ymateb mwyaf cadarnhaol yn arolwg llais y dysgwr ar gyfer y cymorth a'r gefnogaeth y mae dysgwyr yn eu cael yn y coleg, ac roedd 38% o'r farn bod hyn yn dda yn erbyn cyfartaledd y sector, sef 33%.

Mae'r coleg wedi gwneud cynnydd wrth uno â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae staff yn arddangos barn gadarnhaol am yr uno, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt eisoes wedi gweld budd i staff a dysgwyr yn y coleg. Mae uno wedi gwella'r arbenigedd a all fod ar gael i'r coleg; mae wedi codi dyheadau a disgwyliadau staff ac wedi gwella'r adnoddau a all fod ar gael ar gyfer addysgu a dysgu. Mae staff a dysgwyr yn fodlon â'r seilwaith TGCh newydd canlyniadol a'r cysylltedd diwifr gwell. Gall dysgwyr weld cyfleoedd dilyniant gwell ac maent yn croesawu'r wybodaeth am yrfaoedd a chyrsiau y daw y Drindod Dewi Sant â nhw i'r coleg. Mae uno wedi gwella cydweithio â'r holl gyfansoddion, gan gynnwys partneriaid addysg bellach. Mae cydweithio da eisoes wedi nodi cyrsiau addysg bellach newydd a chyfleoedd gwell ar gyfer dilyniant dysgwyr.

**Argymhellion**

Mae un argymhelliad i'w ychwanegu at y rhai a wnaed yn yr adroddiad ar arolygiad diweddar y coleg:

A1 Parhau i ddatblygu cynlluniau i wella'r lleoliad a chyflawni targedau llythrennedd a rhifedd unigol i ddysgwyr

**Camau nesaf**

Bydd Gill Sims AEM a Liam Kealy AEM yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol drwy eu rôl cyswllt â'r sefydliad.

Yn gywir

**Lin Howells**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol